# Strategaeth Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc

Cael rhywun yn gwrando arnoch chi a chael eich clywed yn Wrecsam



wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

# Helo

Hwn yw'r **Strategaeth Cyfranogiad** (cynllun) newydd ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'n sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc yn cael rhywun yn gwrando arnyn nhw. Rydyn ni am i chi ddweud eich dweud mewn penderfyniadau am y canlynol:

- gwasanaethau sy'n eich cefnogi chi a'ch teulu
- eich addysg
- eich cymuned a lle rydych chi'n byw
- a llawer o bethau eraill hefyd.

**Rydych chi'n bwysig** — mae'r hyn rydych chi'n ei feddwl o bwys. Dylid gwrando ar eich syniadau, eich barn a'ch profiadau.

## Eich hawliau

Mae gan **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn** (CCUHP) 54 o erthyglau ar hawliau plant a phobl ifanc ar draws y byd. Mae'r hawliau hyn yn ymwneud â gwneud yn siŵr:

- eich bod chi'n ddiogel
- eich bod chi'n cael eich trin yn deg
- bod gennych chi'r pethau rydych chi eu hangen i oroesi a datblygu
- eich bod chi'n cael dweud eich dweud mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eich bywyd.

Mae Cymru wedi rhoi hawliau plant yn gyfraith. Gallwch ddarllen mwy am eich hawliau yma: www.llyw.cymru/hawliau-plant-gwybodaeth-plentyn

**Mae'r strategaeth hon yn ymwneud â gwneud yn siŵr bod gennych chi eich hawliau a'ch bod yn gallu cymryd rhan.**

## Ein Gweledigaeth

Mae Wrecsam yn lle ble mae pob plentyn a pherson ifanc yn cael y gefnogaeth maen nhw ei hangen i gymryd rhan, cael rhywun i wrando arnyn nhw, a chael eu clywed.

## Ein nodau

1. Rydyn ni am barchu hawliau plant a sicrhau bod pawb yn gwybod amdanyn nhw.
2. Rydyn ni eisiau parchu pob plentyn a pherson ifanc, dim ots pwy ydyn nhw.
3. Rydyn ni eisiau gwrando ar farn plant a phobl ifanc a gweithredu arnyn nhw.
4. Rydym am i bob plentyn a pherson ifanc gael nodau a dyheadau cadarnhaol ar gyfer eu bywydau.
5. Rydyn ni eisiau dathlu plant a phobl ifanc pan fyddan nhw'n cyrraedd eu nodau mewn bywyd.

# Nod 1:

Rydyn ni am barchu hawliau plant a sicrhau bod pawb yn gwybod amdanyn nhw.

## Byddwn ni yn...

gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc:

- yn cael yr holl gefnogaeth maen nhw ei hangen i ddeall a mwynhau eu hawliau
- yn gallu cymryd rhan pan maen nhw eisiau, ac nad oes unrhyw beth yn eu stopio nhw
- ddim yn cael eu dal yn ôl oherwydd eu hoedran, eu diwylliant, eu cred, nac unrhyw reswm arall
- yn cael gwybodaeth sy'n hawdd i'w deall.

Byddwn ni hefyd yn sicrhau bod oedolion sy'n gweithio ar draws gwasanaethau yn gwybod am ac yn parchu eich hawliau!



## Dylech allu dweud:

Rydw i'n gwybod am fy hawliau.

Mae gen i'r gefnogaeth rydw i ei hangen i gymryd rhan.

Mae gen i'r wybodaeth rydw i ei hangen i gymryd rhan a gwneud penderfyniadau.

# Nod 2:

**Rydyn ni eisiau parchu pob plentyn a pherson ifanc, dim ots pwy ydyn nhw.**

## Byddwn ni yn...

gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc:

- yn cael cyfleoedd i gymryd rhan
- yn gwybod bod hawl ganddyn nhw i fod yn rhan o bethau
- yn gallu cymryd rhan yn y Gymraeg neu mewn ieithoedd eraill maen nhw'n eu dewis
- yn cael gwybodaeth glir sy'n hawdd ei deall ac sy'n hawdd dod o hyd iddi
- ddim yn cael eu stopio rhag cymryd rhan am unrhyw reswm
- yn cael cefnogaeth gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda.

## Dylech allu dweud:



Rydw i'n ei ffeindio hi'n hawdd cymryd rhan.

Cefais wybod sut y gallwn i gymryd rhan.

Mae gen i'r wybodaeth rydw i ei hangen.

Rydw i'n gallu cymryd rhan yn Gymraeg.

Fe roddodd staff y gefnogaeth yr oeddwn i ei hangen.

# Nod 3:

Rydyn ni eisiau gwrando ar farn plant a phobl ifanc, ei ddeall a gweithredu arno.



## Byddwn ni yn…

gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc:

- yn cael eu clywed a'u gwerthfawrogi
- yn gallu rhoi eu barn ac yn cael eu cymryd o ddifrif
- yn meddu ar yr holl wybodaeth maen nhw ei hangen i wneud penderfyniadau
- yn ymwneud â'r gwasanaethau cynllunio
- yn ymwneud â gwirio bod gwasanaethau yn gweithio'n dda
- yn ddiogel ac yn gallu dweud beth maen nhw'n ei feddwl heb fwlio na niwed.

## Dylech allu dweud:

Rydw i'n teimlo fy mod i'n cael fy mharchu.

Rydw i'n wedi gwneud gwahaniaeth.

Rydw i'n teimlo'n saff i ddweud be' dwi'n feddwl.

Rydw i'n ymwneud â gwneud gwasanaethau'n well.

Mae staff yn gwrando arna i ac yn gwerthfawrogi beth dwi'n ddweud.

# Nod 4:

## Rydym am i bob plentyn a pherson ifanc gael nodau a dyheadau cadarnhaol ar gyfer eu bywydau.

**Nodau a dyheadau** — y pethau rydych chi eisiau bod a'u gwneud â'ch bywyd.



## Byddwn ni yn...

gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc:

- yn cael eu hannog i osod nodau iddyn nhw eu hunain
- yn cael cefnogaeth gan staff sy'n credu ynddyn nhw ac eisiau iddyn nhw gyflawni
- yn gallu datblygu eu sgiliau
- yn cael profiadau a chyfleoedd i wneud pethau sy'n magu eu hyder
- yn cael hwyl a mwynhau cymryd rhan.

## Dylech allu dweud:

Rydw i'n dysgu sgiliau newydd.

Rydw i'n hoffi cymryd rhan.

Rydw i'n cael cefnogaeth i gyrraedd fy nodau.

Mae'r staff yn fy helpu i weld beth alla i ei wneud a'm hannog i osod nodau.

# Nod 5:

**Rydyn ni eisiau dathlu plant a phobl ifanc pan fyddan nhw'n cyrraedd eu nodau mewn bywyd.**



## Byddwn ni yn...

gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc:

- yn barchus
- yn gwybod sut maen nhw'n gwneud gwahaniaeth
- yn cael gwybod sut mae eu barn wedi gwella gwasanaethau yn Wrecsam
- yn cael diolch am gymryd rhan.

## Dylech allu dweud:

Roedd yn teimlo'n dda i gymryd rhan a gwella pethau i eraill.

Rydw i'n gallu gweld sut mae fy marn wedi gwneud gwahaniaeth.

Rydw i'n teimlo fy mod i'n cael fy ngwerthfawrogi.

Mae'r staff yn mwynhau'r broses ac yn dathlu pan fyddwn yn cyrraedd nodau.

Roedd cymryd rhan yn werth chweil!

# Gwneud yn siŵr ei fod yn gweithio

- **Byddwn yn sicrhau bod pawb yn meddwl am eich hawliau pan fyddant yn gwneud penderfyniadau.**

Mae ffurflenni Asesu Effaith i weithwyr proffesiynol eu defnyddio i sicrhau bod hyn yn digwydd.

- **Byddwn ni'n sicrhau bod pawb yn dilyn y Safonau Cyfranogiad yng Nghymru.**

Mae'r Safonau Cyfranogiad fel rheolau i sicrhau bod oedolion yn cynnwys plant a phobl ifanc yn y ffyrdd cywir.

Byddwn ni'n sicrhau bod pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn gwybod am y Safonau Cyfranogiad ac yn eu dilyn.

Byddwn yn gwirio ein gwaith ac yn parhau i symud tuag at ein nod i gael y Dystysgrif Barcud Cyfranogiad Cenedlaethol.

## Diolch am ddarllen hwn.



# Ffyrdd o gymryd rhan a dweud eu dweud yn Wrecsam:

## Gwasanaeth Ieuenctid Wrecsam

Yn cefnogi pobl ifanc rhwng 11 a 25 mlwydd oed ac yn rhoi cyfleoedd iddyn nhw gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Gwasanaeth Ieuenctid Wrecsam
The Vic, 11-13 Stryt yr Allt, Wrecsam, LL111SN

youthservice@wrexham.gov.uk

01978 317952

## Senedd yr Ifanc

Senedd Ieuenctid Wrecsam yw Senedd yr Ifanc.
Mae'n cyfarfod ar ddydd Llun olaf bob mis ac yn rhoi cyfle i bobl ifanc gael dweud eu dweud.

Senedd yr Ifanc
The Vic, 11-13 Stryt yr Allt, Wrecsam, LL111SN

youngvoices@wrexham.gov.uk

01978 317961

## Cyngor Gofal Pobl Ifanc Wrecsam

Mae hwn yn cynnwys wyth person ifanc rhwng 11 a 20 mlwydd oed sydd yn y system ofal. Maen nhw'n cyfarfod unwaith y mis.

Cyngor Gofal Pobl Ifanc Wrecsam

youngpeoplescarecouncil@wrexham.gov.uk

01978 295372, 07808 787777

## Tîm Datblygu Chwarae CBSW

Maen nhw'n cynnwys plant wrth gynllunio a datblygu chwarae lleol.

Canolfan Ieuenctid Rhiwabon, Stanley Grove, Rhiwabon, LL14 6AH

wrecsam.gov.uk/chwarae

## Ysgolion Iach Wrecsam

Mae hyn yn cefnogi cymryd rhan ar draws pob ysgol.

Ysgolion Iach Wrecsam
Uned 21 Ystâd Ddiwydiannol Whitegate, Ffordd Whitegate, Wrecsam LL13 8UG

healthyschools@wrexham.gov.uk

## Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Wrecsam (YJS)

Mae'r gwasanaeth hwn yn gwneud yn siŵr y gall pobl ifanc sydd wedi dod i gysylltiad â'r System Cyfiawnder Troseddol gymryd rhan a chael dweud eu dweud yn y gefnogaeth maen nhw'n ei gael a sut mae'r gwasanaeth yn gweithio.

Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Wrecsam
Uned 21 Ystâd Ddiwydiannol Whitegate, Ffordd Whitegate, Wrecsam LL13 8UG

youthjusticeservice@wrexham.gov.uk

01978 268140

## Cysylltiadau defnyddiol eraill

Mae sefydliadau a ffyrdd eraill o gymryd rhan. I gael gwybod mwy ewch i:

dewis.cymru

yourvoicewrexham.net

youngwrexham.co.uk

